**ADRODDIAD I'R CABINET**
3 Tachwedd 2015

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Ioan Thomas**

**Pwnc: Gwasanaeth Llyfrgell**

**Swyddog cyswllt: Sioned E. Williams, Pennaeth Economi a Chymuned**

---

**Y penderfyniad a geisir**

Gohirio'r penderfyniad terfynol ar Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd tan ar ôl Her Gwynedd.

---

**Barn yr aelod lleol**

*Amherthnasol*

---

**Cyflwyniad**

1. **Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd.**

1.1 Cynhaliwyd Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgell yn ystod 2013-14 o dan arweiniad Panel Ymgynghorol Aelodau . Cyflwynir yma ganfyddiadau'r adolygiad ynghyd ag argymhellion i'w hystyried gan aelodau'r Cabinet.

1.2 Mae'r adolygiad wedi cwmpasu'r gwaith canlynol:-
- Dadansoddiad Cyllid
- Dadansoddiad Perfformiad
- Asesiadau blynyddol Llywodraeth Cymru o ansawdd a pherfformiad Gwynedd yn erbyn Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.
- Dadansoddiad o Arolygon Barn PLUS drwy CIPFA (Barn defnyddwyr y Gwasanaeth)
- Canlyniadau Arolwg Barn Trigolion Gwynedd (Panel Trigolion).
- Adolygu'r cyd-destun strategol cenedlaethol (yn bennaf lansiad y Pumed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd a chyfeiriad y Fframwaith Strategol ar gyfer Llyfrgelloedd "Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli" gan Llywodraeth Cymru).

1.3 Prif ganfyddiadau'r Adolygiad oedd yr angen i fabwysiadu Cyfeiriad Strategol newydd i'r Gwasanaeth Llyfrgell ac ystyried newid i fodel darparu gwahanol ar gyfer gwireddu'r Strategaeth honno.

1.4 Roedd yr Adolygiad wedi adnabod nad oedd modd cynnal y ddarpariaeth bresennol yn y Gwasanaeth Llyfrgell, a hynny yn bennaf oherwydd y diffyg capasiti i gyfarch y newid mewn patrwm defnydd o'r gwasanaeth, a gaiff ei gyflyru gan lefelau staffio isel iawn.

**2. Strategaeth "Mwy na Llyfrau"**

2.1 Yn seiliedig ar yr adolygiad mae'r Gwasanaeth wedi datblygu cyfeiriad strategol ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell i Wynedd sef "Mwy na Llyfrau". Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell wedi cymryd i ystyriaeth gofynion y Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 ; y Fframwaith Safonau Cenedlaethol ar gyfer Llyfrgelloedd; y cyd-destun ariannol a chanfyddiadau'r adolygiad ar gyfer siapio'r strategaeth a'r opsiynau o fodelau darparu.

2.2 Mae'r strategaeth yn cynnig gweledigaeth ac amcanion i'r gwasanaeth ac yn cynnig pedwar maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu sef datblygu sgiliau digidol, mynediad at wybodaeth, hyrwyddo iechyd a lles ac hyrwyddo darllen.

2.3 Yn ategol i'r strategaeth mae'r gwasanaeth wedi ystyried ystod o opsiynau o fodelau darparu ar gyfer gwireddu'r strategaeth.

2.4 Mae'r strategaeth yn cynnig y opsiwn o ran model darparu ar gyfer gwireddu'r weledigaeth a'i hamcanion. Mae'r model darparu yn seiliedig ar gynnal:-
9 Prif Lyfrgell
Llyfrgell Deithiol Cymunedol
Gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref
Llyfrgell Deithiol i Blant a Phobl Ifanc

**3. Ymgynghoriad Cyhoeddus "Mwy na Llyfrau".**

3.1 Rhwng mis Mai a Gorffennaf 2015 cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus i ganfod barn y cyhoedd ar y Strategaeth "Mwy na Llyfrau". Penodwyd cwmni allanol i gynnal yr ymgynghoriad.

3.2 Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei atodi yn Atodiad 1.

3.3 Mewn ymateb i'r weledigaeth, yr amcanion a'r meysydd blaenoriaeth a nodir yn y strategaeth mae'r ymgynghoriad wedi amlygu fod trigolion Gwynedd yn ystyried hybu iechyd a lles unigolion a chymunedau fel un o bwrpasau allweddol y gwasanaeth a llyfrgelloedd. Mae'r ymgynghorwyr yn ategu'r farn honno drwy nodi cyfraniad llyfrgelloedd tuag at gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Argymhellir yn yr adroddiad y dylid addasu'r weledigaeth a'r amcanion er mwyn cydnabod yn llawn fod gan adeiladau llyfrgell swyddogaethau pwysig sydd y tu hwnt i lyfrau a gwybodaeth.

3.4 Mewn ymateb i'r model darparu a nodir yn y strategaeth (2.4 uchod) mae'r ymgynghoriad wedi amlygu fod defnyddwyr y Gwasanaeth yn gyffredinol yn gwrthwynebu y cynigion i newid y ddarpariaeth. Mae'r adroddiad yn nodi yn ei chasgliadau nad "*yw'n ariannol gynaliadwy i Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd barhau i gadw amryw o adeiladau at ddibenion llyfrgell y unig...Hwn yw'r gwirionedd er gwaethaf ymbil taer gan ddefnyddwyr ar i'r Cyngor gadw adeiladau llyfrgell....*".

3.5 Noda'r ymgynghorwyr yn eu casgliadau fod angen i'r Cyngor fod a model darparu sy'n denu defnyddwyr i ymweld a phrif llyfrgell (sydd wedi ei ddiffinio yn adroddiad yr ymgynghoriad fel llyfrgell sydd ar agor am fwy nag 20 awr); ymweld a llyfrgell cymunedol o dan arweiniad yr awdurdod (sydd wedi ei diffinio mewn canllaw gan Lywodraeth Cymru); ymweld a llyfrgell symudol; cael mynediad i'r gwasanaeth llyfrgell ar-lein.

3.6 Argymhellir yn yr adroddiad fod y cyngor felly yn ystyried cynnig gwasanaeth "Llyfrgell cymunedol o dan arweiniad yr awdurdod " yn yr 8 llyfrgell sydd ar agor am lai na 20awr yr wythnos yn ategol i'r opsiwn a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghori. Nid oes trafodaethau manwl ar ddulliau amgen o ddarparu gwasanaeth llyfrgell wedi eu cynnal gyda'r cymunedau.

3.7 Mae'r adroddiad yn cydnabod fod gan gymunedau gymwyseddau, galluoedd a dymuniadau gwahanol o ran cymryd rôl a chyfrifoldeb fel y diffinnir ar gyfer Llyfrgell cymunedol o dan arweiniad yr awdurdod .

3.9 Yn ystod yr ymgynghoriad cynigwyd opsiynau gwahanol gan rai cymunedau i'r un amlinellir yn 2.4 uchod. Er enghraifft roedd rhai cymunedau o'r farn y dylai'r Cyngor gynnal y rhwydwaith o 17 adeilad llyfrgell fel ag y mae ond ystyried cwtogi oriau ar draws y rhwydwaith i ganfod arbedion; cafwyd hefyd cynigion ynglŷn a thrafod y model o lyfrgell gymunedol ym mhob un o'r llyfrgelloedd presennol neu yn y prif lyfrgelloedd yn unig; cafwyd cynigion i ddileu'r gwasanaeth teithiol i gymunedau; cafwyd hefyd gynigion i godi incwm a chodi ffioedd mewn

llyfrgelloedd. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell wedi ystyried ystod o opsiynau, a'u hasesu ar sail cyflawni'r Safonau Cenedlaethol, cyflawni'r strategaeth "Mwy na Llyfrau" a'r gallu i gyfarch cyllideb sy'n lleihau er mwyn llunio'r opsiwn a gyflwynwyd er ymgynghori.

3.10 Yn ategol mae'r adroddiad yn nodi cyfres o argymhellion o amgylch marchnata a chyfathrebu, cynllunio a darparu gweithgareddau, recriwtio a defnyddio gwirfoddolwyr ar gyfer cefnogi symud i fodel darparu newydd. Mae nifer o'r argymhellion hyn yn ategu'r hyn oedd eisoes wedi ei adnabod yn nghanfyddiadau'r adolygiad cychwynnol. Oherwydd hynny mae nifer ohonynt bellach yn cael eu gweithredu yn y gwasanaeth, oddi fewn i'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd.

3.11 Mae'r adroddiad ac adborth yr ymgynghoriad wedi ei ddefnyddio ar gyfer diweddaru'r asesiad effaith cydraddoldeb sydd i'r strategaeth. Nodi'r isod y prif faterion cydraddoldeb:-
- Effaith ar ferched yn arbennig felly merched oedrannus sy'n ddefnyddwyr.
- Effaith ar Bobl Hyn yn fwy amlwg na unrhyw grŵp oedran arall, ac yn fwy amlwg mewn rhai cymunedau ( Harlech, Criccieth, Porthmadog, Abermaw).
- Effaith ar gymunedau o siaradwyr Cymraeg (a dysgwyr) yn enwedig y cymunedau hynny sy'n gweld dirywiad yn % y siaradwyr Cymraeg yn disgyn o dan y trothwy 70% fel cymuned hyfyw ieithyddol (Llanberis, Penisarwaun, Llanaelhaearn a Morfa Nefyn)
- Effaith ar bobl anabl yn fwy amlwg mewn rhai cymunedau pe bai newid (Talysarn).
-Effaith ar amddifadedd lluosog rhai cymunedau (Talysarn, Deiniolen, Llanllyfni a Clynnog).
- Effaith ar blant ifanc a theuluoedd nad ydynt a'r gallu i deithio i brif lyfrgell (cost ac anawsterau trafnidiaeth cyhoeddus).

3.12 Mae'r asesiad effaith yn nodi y gall newid i fodel darparu newydd sy'n seiliedig ar gynnal llai o lyfrgelloedd gael effaith andwyol ar rai grwpiau o bobl mewn rhai cymunedau.

3.13 Dylid nodi nad oes effeithiau negyddol i'r grwpiau gwarchodedig wedi eu hadnabod ym mhob cymuned (fel sydd wedi ei nodi yn y crynodeb yn 3.11 uchod). Yn yr un modd mae rhai effeithiau penodol iawn wedi eu hadnabod mewn rhai cymunedau drwy'r dystiolaeth a ddaeth i law yn rhan o'r ymgynghoriad. Dylid nodi y gellid lliniaru rhai o'r effeithiau sydd wedi eu hadnabod mewn cymunedau penodol drwy ddulliau amgen eraill megis dolenni cymunedol, pwyntiau casglu,

addasu'r arosfanau y gwasanaeth teithiol, cofrestru unigolion cymwys am y gwasanaeth llyfrgell i'r cartref, a/neu hyrwyddo'r gwasanaethau ar-lein.

3.14 Oherwydd yr hyn sydd wedi ei amlygu wrth ddiweddaru'r asesiad effaith mae angen gwaith pellach ar y strategaeth a'r model darparu yn arbennig felly i sicrhau ei bod yn cyfarch effeithiau cymunedau unigol ac yn adnabod mesurau lliniaru penodol i'r grwpiau a effeithir yn y cymunedau hynny cyn gweithredu.

3.15 Roedd yr adborth yn ystod yr ymgynghoriad gan ddefnyddwyr yn y cymunedau a fyddai'n cael eu heffeithio (pe byddai'r model darparu a cynigwyd yn cael ei weithredu)yn nodi effeithiau cymdeithasol ac economaidd ar eu cymunedau. Roedd barn gref fod y strategaeth yn cyfrannu at
- ddiwylliant o drefoli ar draul cymunedau gwledig;
- colli gwasanaethau mewn pentrefi;
- ddirywiad y stryd fawr;
- colli cyfleuster cymunedol;
- cyfrannu at unigedd cymdeithasol
- gwanhau cynhwysiad cymdeithasol rhai grwpiau o bobl bregus ( pobl hyn a teuluoedd gyda plant bychain).

**4. Casgliadau**

4.1 Yn sgil derbyn adroddiad yr ymgynghoriad, a diweddariad o'r asesiad effaith cydraddoldeb mae'r Gwasanaeth Llyfrgell angen ystyried a chraffu'r argymhellion a'r dystiolaeth sydd wedi ei dderbyn yn fanylach.

4.2 Mae pwysau cynyddol toriadau parhaus yn golygu bod yn rhaid i Gyngor Gwynedd wneud toriadau gwerth oddeutu £7miliwn. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn gofyn barn trigolion y sir ar pa wasanaethau lleol i'w gwarchod a pha rai i'w torri drwy Her Gwynedd. Bydd Her Gwynedd yn gyfle i drigolion y sir roi eu barn ar warchod y gwasanaeth llyfrgell a'i osod o fewn eu blaenoriaethau ymhlith pecyn ehangach o wasanaethau. Bydd angen ystyried canlyniadau Her Gwynedd a blaenoriaethau pobl Gwynedd cyn symud ymlaen gyda datblygu Strategaeth "Mwy na Llyfrau" y Gwasanaeth Llyfrgell a model darparu i gyflawni'r strategaeth honno.

4.3 Yn ategol, heb sicrwydd o gyllideb y Gwasanaeth Llyfrgell i'r dyfodol ni allwn symud ymlaen i ddatblygu'r Strategaeth.

4.4 Argymhellir gohirio'r penderfyniad terfynol ar Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd tan ar ôl Her Gwynedd.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**
Ni all y Gwasanaeth symud ymlaen i adolygu'r strategaeth a datblygu model darparu gan ein bod yng nghanol ymgynghoriad Her Gwynedd, a bod i ganlyniadau Her Gwynedd ddylanwad ar y strategaeth yn arbennig felly o ran yr adnoddau fydd ar gael i'w chyflawni.

**Ystyriaethau perthnasol**

**Cyd-destun Ariannol.**

Mae pwysau cynyddol toriadau parhaus yn golygu bod yn rhaid i Gyngor Gwynedd wneud toriadau gwerth oddeutu £7miliwn. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn gofyn barn trigolion y sir ar pa wasanaethau lleol i'w gwarchod a pha rai i'w torri drwy Her Gwynedd. Bydd Her Gwynedd yn gyfle i drigolion y sir roi eu barn ar warchod y gwasanaeth llyfrgell a'i osod o fewn eu blaenoriaethau ymhlith pecyn ehangach o wasanaethau.

Nid oes penderfyniad ynglŷn a lefel y gyllideb fydd ar gael i'r Gwasanaeth Llyfrgell yn y dyfodol.

Mae Strategaeth "Mwy na Llyfrau" yn cyflwyno cyfeiriad strategol i'r gwasanaeth llyfrgell ar gyfer y dyfodol. Yn greiddiol i'r strategaeth honno mae darparu gwasanaeth **cynhwysfawr ac effeithlon,** yn unol â'r Safonau Cenedlaethol sydd yn dehongli y gofynion statudol ar yr awdurdod**.** Mi fyddai gwireddu y Strategaeth a'r Model Darparu a amlinellwyd yn adran 2 uchod wedi arwain at arbedion effeithlonrwydd o £169,000 (fel yr adroddwyd i Cabinet ar 16/12/14). Yn sgil yr ymgynghoriad cyhoeddus , byddai gweithredu ar argymhellion adroddiad yr ymgynghoriad yn arwain at arbedion effeithlonrwydd o £75,000. Fodd bynnag, byddwn yn ail-edrych ar arbedion effeithlonrwydd y Gwasanaeth wrth wneud gwaith pellach ar y Strategaeth a'r Model Darparu yn sgil dadansoddi adroddiad yr ymgynghoriad, yr asesiad effaith a derbyn canlyniadau Her Gwynedd.

**Cydraddoldeb**
Gweler 3.11 a 3.12 uchod.

**Camau nesaf ac amserlen**
Bydd Cyngor Gwynedd yn cymryd penderfyniadau ar y gwasanaethau i'w torri, yn sgil Her Gwynedd, yn gynnar yn 2016.

Bydd y Gwasanaeth Llyfrgell yn parhau gyda'r gwaith dadansoddi a gwaith pellach ar y Strategaeth a'r model darparu wedi hynny, gyda'r bwriad o gyflwyno achos fusnes i'r cabinet ganol 2016.

## Barn y swyddogion statudol

**Y Prif Weithredwr:**
“Mae’r argymhelliad yn y papur yn un synhwyrol gan ei fod yn galluogi gwneud y penderfyniad am ddyfodol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yng nghyd-destun y penderfyniadau allweddol eraill y bydd y Cyngor yn ei wneud am ei holl wasanaethau. Rwy’n cefnogi’r argymhelliad”

**Y Swyddog Monitro:**
“Mae’r adroddiad yn cydnabod fod effaith posib canlyniadau Her Gwynedd ar adnoddau y Gwasanaeth yn allweddol i ddod I benderfyniad. Oherwydd fod proses ymgynghori wedi ei dilyn wrth ddatblygu’r strategaeth newydd a bod angen gwaith pellach ar faterion megis canlyniadau’r asesiad cydraddoldeb mae’r argymhelliad yn briodol ar y pwynt yma. Bydd angen adolygu’r llwybr i benderfyniad pan fydd y sefyllfa yn eglurach.”

**Y Pennaeth Cyllid:**
“Fel cyfraniad tuag at darged arbedion effeithlonrwydd yr Adran Economi a Chymuned, cyflwynwyd cynllun “Ail-fodelu’r Gwasanaeth Llyfrgell” gwerth £169,000. Yn y Cabinet ar 16 Rhagfyr 2014, gohiriwyd gweithredu’r cynllun hwnnw, a chynhaliwyd ymgynghoriad adrannol gyda chasgliad yn cynnig arbediad llai (£75,000) drwy “fodelau cymunedol”. Nid yw cyllideb 2015/16 yn ddibynnol ar wireddu’r arbedion hyn, ond roedd strategaeth ariannol 2015/16 - 2017/18 yn disgwyl cyfraniad o’r Gwasanaeth Llyfrgell tuag at arbedion effeithlonrwydd pellach.

Erbyn hyn, rhoddir ystyriaeth i fwy o arbedion / toriadau i’r Gwasanaeth Llyfrgell yn yr ymgynghoriad “Her Gwynedd” cyfredol. Felly, mae’n rhesymegol i’r Cabinet ystyried dyfodol y Gwasanaeth Llyfrgell, a’r holl arbedion / toriadau perthnasol, fel rhan o’i benderfyniadau ar y toriadau yn sgil “Her Gwynedd” (yn y cylch sy’n arwain at gyfarfod 3 Mawrth 2016 o’r Cyngor llawn).”

---

## Atodiadau

*Atodiad 1 – Adroddiad yr Ymgynghoriad gan Gwmni Cymdeithion Sian Shakespear.*